

Gwaith Adfer Traphont Abermaw

Cwestiynau Cyffredin – Mehefin 2020

1. Pam ydych chi'n adfer Traphont Abermaw?

Gwyddom beth yw gwerth y Draphont Abermaw eiconig i'r gymuned a'r economi leol, felly rydym yn buddsoddi £25 miliwn dros y tair blynedd nesaf ar y gwaith uwchraddio mwyaf yn ei hanes. Bydd y gwaith yn helpu i warchod ein treftadaeth ddiwydiannol a diogelu'r cysylltiad trafnidiaeth hanfodol hwn er mwyn iddo barhau i wasanaethu pobl leol a denu ymwelwyr i'r ardal am genedlaethau i ddod.

Wedi'i hadeiladu mwy na 150 o flynyddoedd yn ôl, mae'r draphont mewn cyflwr gwael ar hyn o bryd. Mae llawer o rannau pren y draphont wedi dirywio'n sylweddol dros amser ac mae nifer fawr o'r rhannau metel wedi cyrydu.

Bydd ein rhaglen waith yn adfer y draphont yn llwyr, mewn ffordd nad yw'n bygwth ei threftadaeth ddiwydiannol a'i statws fel pont restredig Gradd II*. Mae'n golygu y byddwn yn ailosod ei chydrannau ar sail 'tebyg am debyg', er mwyn cadw golwg godidog y draphont. Rydym wedi bod yn gweithio'n agos gyda Cadw, Cyngor Sir Gwynedd a rhanddeiliaid eraill ers sawl blwyddyn er mwyn datblygu ein cynlluniau a chytuno arnynt.

2. Pryd fydd y gwaith yn cael ei wneud?


Er mwyn lleihau'r effaith ar y gymuned leol a thwristiaeth yn Abermaw, rydym wedi cynllunio'n gwaith yn ofalus er mwyn ei gwblhau dros dair blynedd – gan gau'r draphont yn llawn am dri chyfnod byrrach, yn hytrach na'i chau unwaith am un cyfnod hir. Hoffem ddiolch ichi ymlaen llaw am eich amynedd yn ystod y gwaith hwn.

Ar ddiwedd mis Mehefin, byddwch yn gweld ein tîm yn brysur wrth ei waith – yn sefydlu ein compowndiau ar y safle ac yn cwblhau peth o'r gwaith paratoi mae ei angen cyn y gallwn ddechrau'r gwaith ar y draphont. Mae'r wybodaeth ganlynol yn rhoi trosolwg o amserlenni'r prosiect yn gyffredinol. Byddwn yn rhoi gwybod ichi os yw'r dyddiadau hyn yn newid yn y dyfodol.

	Dechrau gwaith ar y safle	Cau Traphont Abermaw dros dro	Symud ymaith o'r safle
2020	Diwedd Mehefin – canol Hydref	16 Hydref (23.40) – 2 Tachwedd (05.30)	Tach – Rhag
2021	Mehefin - Medi	17 Medi (22.40) – 18 Rhagfyr (05.10)	Canol Rhag - Ion
2022	Mehefin - Hydref	I'w gadarnhau. Yn debygol o fod Hydref – Rhagfyr	Rhag - Ion

3. Beth mae'r gwaith yn ei olygu?

Bydd ein gwaith yn cynnwys ailosod nifer fawr o rannau pren a metel y draphont, yn ogystal ag ailosod y 820m o drac ar ei thraws.



Byddwn yn dechrau drwy ailosod rhannau pren y draphont a'r trac cysylltiedig, a bydd y gwaith hwn yn para'r ddwy flynedd gyntaf. Ein prif gontractwr ar gyfer y gwaith hwn yw Alun Griffiths Cyf.

Yn ystod 2022, byddwn yn ailosod rhychwantau metel y draphont a'r trac cysylltiedig.

Byddwn hefyd yn uwchraddio'r trac ar ben gogleddol a phen deheuol y draphont yn 2022.

4. A fydd y bont droi'n gweithio ar ôl cwblhau'r gwaith?

Am resymau gweithredol a diogelwch, ni fydd y bont yn troi ar ôl y gwaith ond bydd yr holl fecanweithiau allweddol sy'n gysylltiedig â'r bont droi yn cael eu cadw yn eu lle yn unol â statws rhestredig Gradd II* y strwythur. Mae'r ymagwedd hon wedi cael ei chytuno gyda Cadw a Chyngor Gwynedd.

5. Pam ydych chi'n bwrw ymlaen â'r prosiect hwn yn awr, o ystyried y pandemig Covid-19?

Er mwyn diogelu ein pobl a'r cymunedau a wasanaethwn, rydym wedi adolygu'r holl waith a gynlluniwyd ar y rheilffyrdd er mwyn sicrhau y gallwn gyflawni'r gwaith yn ddiogel yn unol â chyfarwyddyd y Llywodraeth. Rydym wedi gwneud newidiadau i'r ffordd rydym yn gweithio ac rydym yn ffyddiog y gallwn gyflawni'r gwaith yn ddiogel, ac yn unol â chanllawiau cadw pellter cymdeithasol ar gyfer gwaith adeiladu.


Gwyddom fod llawer llai o deithwyr yn teithio ar hyn o bryd, ond yn anffodus ni allwn gau'r rheilffordd yn llwyr er mwyn cwblhau ein holl waith ar Draphont Abermaw yn awr. Mae gweithwyr allweddol yn dal i ddibynnu ar y rheilffordd i gyrraedd eu lle gwaith – felly mae'n rhaid inni sicrhau bod cyn lleied o darfu ag sy'n bosibl arnyn nhw.

Cynlluniwyd y prosiect hwn flynyddoedd ymlaen llaw, a chytunwyd ar fynediad i'r rheilffordd a'r cyflenwad deunyddiau gyda'n cadwyn cyflenwi, Trafnidiaeth Cymru a phartneriaid eraill ymhell ymlaen llaw. Felly nid oedd modd ei ail-raglennu.

6. Sut fyddwch yn sicrhau eich bod yn cydymffurfio â chanllawiau'r Llywodraeth o ran Covid-19?

Rydym wedi gwneud nifer o newidiadau i'r ffordd rydym yn gweithio er mwyn sicrhau ein bod yn cydymffurfio â chyfarwyddyd y Llywodraeth.

Mae'r mesurau a weithredwn yn cynnwys cyflogi marsialiaid Covid-19 er mwyn sicrhau bod yr holl staff yn cadw at y ffordd newydd o weithio; y staff i gymryd eu tro i gael egwyd fel nad oes nifer fawr o weithwyr yn y manau ymneilltuo ar yr un pryd, a'r staff i ddefnyddio masgiau wyneb a feisorau pan fyddant yn cyflawni tasgau lle na fydd cadw pellter cymdeithasol yn bosibl. Rydym yn adolygu'r ffordd rydym yn gweithio o hyd wrth i gyngor y Llywodraeth ddatblygu, a byddwn yn gwneud unrhyw newidiadau yn ôl yr angen.



7. Ble fydd y compowndiau?

Er mwyn cyrraedd y draphont yn hawdd drwy gydol cyfnod ein gwaith, byddwn yn sefydlu compowndiau ar y safle dros fisoedd yr haf. Bydd dau gompownd yn weddol agos i'r draphont – un ar yr ochr ogleddol a'r llall ar yr ochr ddeheuol. Bydd un arall yn nhref Abermaw, ger Marine Parade, gyda mwy o leoedd parcio i'n contractwyr yng nghanol tref Abermaw.

I'r rhai ohonoch sy'n byw yn agos i un o'r compowndiau, gwnawn ein gorau glas i darfu arnoch cyn lleied ag sy'n bosibl. Ar adegau, mae'n anochel y bydd y peiriannau a ddefnyddiwn a'r gweithgareddau a gyflawnwn yn creu rhywfaint o sŵn – ac rydym yn ymddiheuro am unrhyw darfu. Mae ein holl staff a'n contractwyr wedi'u briffio ar weithio'n gyfrifol yn y gymuned ac os oes gennych unrhyw bryderon, dylech gysylltu â ni drwy ffonio ein llinell gymorth genedlaethol ar 03457 11 41 41 neu drwy anfon neges e-bost at crwales@networkrail.co.uk.

8. Sut fydd y teithwyr yn parhau i deithio pan fydd y draphont wedi'i chau dros dro?

Rydym yn deall pa mor bwysig yw Llinell Arfordir y Cambrian i bobl leol ac ymwelwyr â'r ardal, felly rydym wedi cynllunio'n ofalus i gau'r llinell am dri chyfnod byrrach dros gyfnod o dair blynedd, a'r tu allan i gyfnod prysuraf y tymor twristiaeth.

Gan weithio'n agos gyda Thrafnidiaeth Cymru, byddwn yn darparu gwasanaeth bysiau yn lle trenau rhwng gorsafoedd Pwllheli a Machynlleth a'r holl orsafoedd rhyngddynt. Hefyd bydd gwasanaeth bws ychwanegol ar gyfer disgyblion ysgolion lleol i fynd â nhw i'r ysgol ac yn ôl adref. Ein cyngor i deithwyr yw cynllunio ymlaen llaw a chaniatáu amser ychwanegol ar gyfer teithio.

9. Beth fydd cau'r draphont dros dro yn ei olygu i'r cerddwyr a'r beicwyr sy'n defnyddio'r draphont?


Er diogelwch y cyhoedd a'r staff, mae angen inni gau'r llwybr troed yn gyfan gwbl tra ein bod ni'n cau'r draphont dros dro. Gwyddom fod llawer o bobl yn cerdded ac yn beicio ar draws Traphont Abermaw yn ddyddiol, felly nid oes byth amser delfrydol i'w chau. Fodd bynnag, bydd buddsoddi'n sylweddol yn y draphont yn awr yn helpu i leihau'r anghenion o ran cynnal a chadw yn y dyfodol, gan atal cyfnodau o darfu a gynlluniwyd a nas cynlluniwyd yn y dyfodol, a diogelu dyfodol y draphont i'r holl ddefnyddwyr.

Rydym yn gweithio'n agos gyda phartneriaid lleol i roi gwybod i bobl digon ymlaen llaw y bydd y draphont yn cau dros dro, fel y gallant wneud trefniadau eraill.

10. A gaiff y llwybr troed ar hyd y draphont ei ailwampio ar yr un pryd?

Gan fod y canllawiau ac estyll y dec wedi pydru mewn sawl man, byddwn yn atgyweirio llawer o'r prennau a'r rhannau metel cysylltiedig er mwyn gwella hirhoedledd y llwybr am flynyddoedd i ddod.

Mae'r cynlluniau'n cynnwys tynnu unrhyw brennau pwdr sy'n cynnal y rhodfa a rhoi rhai newydd yn eu lle neu eu hatgyweirio. Bydd y gwaith hwn yn helpu i estyn oes estyll y rhodfa uwchben. Cyngor Gwynedd sy'n gyfrifol am gynnal a chadw'r rhodfa ac yn ystod y



gwaith hwn bydd Network Rail yn ceisio atgyweirio unrhyw elfennau o'r rhodfa sy'n hanfodol o ran diogelwch. Byddwn hefyd yn gweithio gyda swyddogion y Cyngor i adnabod cyfleoedd i ail-ddefnyddio unrhyw bren ar gyfer y rhodfa lle bo modd.

11. Pa oriau fyddwch chi'n gweithio?

Pan fydd ein compowndiau wedi'u gosod ar y safle, byddwn yn gwneud rhywfaint o waith paratoi dros fisoedd yr haf. Bydd rhywfaint o'r gwaith hwn yn ddibynnol ar y llanw – am fod angen inni weithio ar rannau o'r draphont pan fydd y llanw'n isel. Mae hyn yn golygu y byddwch yn ein gweld ni'n gweithio ar adegau gwahanol drwy gydol y dydd, gan gynnwys rhywfaint o waith yn ystod y nos.

Yn ystod y cyfnodau pan fydd y draphont wedi'i chau dros dro, byddwn yn gweithio dydd a nos, saith diwrnod yr wythnos i ddefnyddio'r amser sydd gennym ar y safle yn y ffordd orau bosibl. Rydym yn briffio ein staff i leihau unrhyw darfu cymaint ag y bo modd, ond mae'n flin gennym os ydym yn achosi unrhyw anghyfleustra i'r gymuned leol. Ein nod fydd rhoi diweddariadau rheolaidd i chi drwy gydol y gwaith.

12. A fydd y pren yn dod o ffynhonnell gynaliadwy?

Byddwn yn defnyddio pren caled trofannol o ffynhonnell gynaliadwy ar gyfer y rhannau pren. Mae'r pren hwn wedi cael ei ddewis yn benodol oherwydd ei briodoleddau strwythurol a'i gadernid mewn amgylcheddau morol, yn dilyn treialon o wahanol brennau caled ar strwythurau tebyg mewn amgylcheddau tebyg. Mae pren o'r math hwn hefyd yn gwrthsefyll ymosodiadau gan lyngyr môr a welwyd o'r blaen ar y strwythur.

Bydd y pren yn cydymffurfio â'r Cyngor Stiwardiaeth Coedwigoedd / y Rhaglen Cymeradwyo Ardystio Coedwigoedd gyda chadwyn gwarchodaeth lawn hyd nes iddo gyrraedd y safle. Bydd hyn yn ei gwneud yn bosibl inni wirio hanes y pren yn ôl i'r fan lle cafodd ei dyfu er mwyn sicrhau ei fod wedi dod o leoliad cynaliadwy.

13. O ble fydd y dur yn dod ar gyfer y gwaith metel?

Mae'r contract ar gyfer y gwaith metel yn cael ei gynnig ar dendr ar hyn o bryd felly nid oes gennym gontractwr eto ond byddwn yn sicrhau y dilynwn ganllawiau'r Llywodraeth ar gaffael dur ar gyfer prosiectau mawr.

14. Pwy allaf i gysylltu â nhw os oes gen i ragor o gwestiynau?

Os oes gennych ragor o gwestiynau, cysylltwch â ni drwy ffonio ein llinell gymorth genedlaethol ar 03457 11 41 41 neu drwy anfon neges e-bost at crwales@networkrail.co.uk.